

CYNGOR CYMDEITHAS LLANFROTHERN

LLANFROTHERN COMMUNITY COUNCIL

cofnodion cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd nos Lun Mehefin 27 2016.

PRESENNOL: Cynghorydd Glyn Griffiths (Cadeirydd), Cynghorydd Dafydd Watts (Is-Gadeirydd). Y Cyngorwyr R V Robers, Nia Povey, Ifor Jones

Ymddiheuriadau - Y Cyngorwyr Llio Griffiths. Myfain Wyn, R P Jones.

COFNODION – Cyflwynwyd a chadarnhawyd Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2016.

FFORDD YNG NGHROESOR - Cyflwynwyd llythyr Cyngor Gwynedd yn hysbysu y bydd un o'r swyddogion yn ymweld â'r safle a gweithredu yn ôl yr angen.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.

YMCHWILIAD CRAFFU GOFAL STRYD - Cyflwynwyd llythyr Cyngor Gwynedd yn hysbysu ei bod yn ystyried penodi cwmni preifat i weithio gydag uned Gofal Stryd y Cyngor i weithredu'r rheolau yn fwy effeithiol. Gofynnwyd am farn y Cyngor ar hyn.

Penderfynwyd cefnogi'r syniad a gofyn iddynt annog cwmnïau lleol i geisio am y gwaith.

GWAREDU ANGHYFREITHLON - Cyflwynwyd llythyr Cyngor Gwynedd yn hysbysu y trefnwyd ymchwiliad gan y Swyddog Gorfodaeth ac y trefnir i ymgymryd ag unrhyw waith a fyddai'n briodol. Penderfynwyd - a) Derbyn y wybodaeth. b) Dwyn sylw fod ysbwriel yn nawr yn cael ei arllwys ar ochr y ffordd rhwng Rhyd a Tanybwllch ger lle 'roedd y wal newydd wedi ei chodi. C) Gofyn i Gyngor Gwynedd geisio i gael Cwmni Till Hill sef perchennog y Goedwig i gloi'r gathiau ar y ffyrdd gan y byddai hynny yn debygol o leihau'r broblem.

CYNNAL LLWYBRAU CYHOEDDUS - Cyflwynwyd llythyr Cyngor Gwynedd yn hysbysu y bydd ei gyfraniad i'r Cyngor eleni yn gostwng 0 £839 I £620.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.

TOILEDAU CYHOEDDUS - Cyflwynwyd llythyr Cyngor Gwynedd yn hysbysu bod cynllun yn bodoli ble y gellir gwneud taliad i berchennog unrhyw adeilad addas yn caniatáu i'r cyhoedd ddefnyddio eu toiledau. Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.

ARDALOEDD CYNGOR GWYNEDD - Cyflwynwyd llythyr Cyngor Gwynedd yn rhoddi manylion o'u hargymhellion ar gyfer sefydlu Awdurdodau yn yr ardal. Penderfynwyd na fydd y Cyngor yn cael ei gynrychioli yn yr un o'r cyfarfodydd.

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI - Cyflwynwyd gwahoddiad i'r Cyngor i anfon cynrychiolydd i un o'r cyfarfodydd a drefnir gan yr Awdurdod gyda'r cynghorau yn yr ardal. Penderfynwyd na fyddai neb yn mynychu'r un o'r cyfarfodydd.

SWYDDFA BOST SYMUDOL - Cyflwynwyd llythyr y Swyddfa Bost yn rhoddi manylion o'r newidiadau yn amserlen ymweliadau'r Swyddfa Bost Symudol. Bydd y Gwasanaeth ar gael yn Llanfrothen ar ddydd Iau yn wythnosol rhwng 12.15- 13.15 yn y pwn. . Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.

DWR CYMRU - Carthffosiaeth Morfa Gaseg. Adroddwyd fod Dwr Cymru wedi paratoi cynlluniau ar gyfer goresgyn y problemau ym Morfa Gaseg ac wedi penodi ymgymwrwr i wneud y gwaith angenrheidiol. Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.

CÔD YMDDYGIAD DIWYGIEDIG - Adroddwyd fod rhai newidiadau wedi eu gwneud i'r Côt Ymddygiad. 'Roedd copi o'r Cynllun Diwygiedig gyda Rhaglen y cyfarfod. Penderfynwyd mabwysiadu'r Côt Ymddygiad Diwygiedig fel Côt Ymddygiad y Cyngor. Cyflwynwyd llythyr Cyngor Gwynedd yn hysbysu y byddai'n bosibl iddynt roi manylion o'r penderfyniad mewn hysbyseb y byddent hwy yn paratoi ar gyfer ei chyhoeddi yn y Wasg os dymunid. Penderfynwyd derbyn y cynnig.

CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL - Cyflwynwyd dogfen yn cynnwys rhai newidiadau i'r Cynllun. Penderfynwyd derbyn y Ddogfen ac awgrymu mewn materion yn ymwneud a chyrrff cyhoeddus a hefyd bod angen ei chryfhau mewn perthynas â diogelu enwau Cymraeg ar dai a hefyd ar strydoedd.

ADRODDIAD YR ARCHWILIWR MEWNOL – Cyflwynwyd copi o adroddiad yr Archwiliwr Mewnol am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2016 . Penderfynwyd ei dderbyn.

DATGANIAD O SICRWYDD - Adroddwyd ei bod yn angenrheidiol i'r Cyngor fabwysiadu a chadarnhau nifer o faterion oedd yn gynwysedig yn Adran 2 o'r ffurflen Archwilio. Penderfynwyd ymateb yn gadarnhaol i bob un o'r materion y cyfeiriwyd atynt ac eithrio'r un yn cyfeirio at adolygu gwariant y Cyngor yn ystod y flwyddyn.

MANTOLEN Y CYNGOR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2016 - Cyflwynwyd y ddogfen (copi wedi ei anfon at bob aelod gyda Rhaglen y cyfarfod).

Penderfynwyd ei dderbyn a'i chadarnhau.

BILIAU - Penderfynwyd talu'r biliau canlynol -

RG a RA Jones - £37.00

K Williams - £607.10

Delwedd - penderfynwyd talu am 3mis o'r bil oedd i law sef £149.96

CAIS CYNLLUNIO - Cyflwynwyd cais ôl-weithredol i gadw balcony, decin a siedau gardd yr Hafan Wen, Rhyd. Penderfynwyd nad oedd gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad i'r cais.

YMDDIRIEDOLAETH BRONDANW - Adroddwyd fod gwahoddiad i ddau gynrychiolydd o'r Cyngor fynychu cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth ym Mhortmeirion ar 3 Hydref 2016 am 3.00 y prynhawn. Penderfynwyd - a) bod y Cadeirydd a'r Is Gadeirydd yn mynychu. b) gofyn am wybodaeth o'r materion i'w trafod ymlaen llaw.

c) adrodd nad oedd y Cyngor yn or-ffafriol i'r syniad o godi tai newydd ar y cae ger Garreg Frech.

COED A GWRYCHOEDD AR OCHR Y FFORDD- adroddwyd fod coed a gwrychoedd yn gordyfu ar ochr y ffordd rhwng Afallon a Hen Gapel Siloam a hefyd ar y Morfa.

Penderfynwyd dwyn y mater i sylw Adran Ffyrdd Cyngor Gwynedd a gofyn iddynt ymdrin â'r mater.

LLWYBR FYNNU AT YR HEN EFAIL - Adroddodd y Cynghorydd Dafydd Watts mai R Podmore oedd perchennog y tir ble roedd y llwybr yn mynd drosto ac nad oedd ganddo unrhyw wrthwynebiad i greu llwybr drosto. Penderfynwyd gofyn am gadarnhad mai ef yw perchennog y tir ac nad oedd ganddo unrhyw wrthwynebiad i greu llwybr drosto.